



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Cylch Meithrin Gellilydan
Y Bwthyn
Ysgol Edmwnd Prys
Gellilydan
Blaenau Ffestiniog
LL41 4DY**

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2013

gan

**Eifion R Morgan
Arolygydd Cofnodol**

ar ran

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/07/2013

Cyd-destun

Cafodd Cylch Meithrin Gellilydan ei sefydlu ym 1992 gan gyfarfod yn neuadd y pentref. Fodd bynnag, ers 2009 mae'r Cylch wedi defnyddio ystafell ddosbarth yn Ysgol Edmwnd Prys - ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ym mhentref bach gwledig Gellilydan yng Ngwynedd.

Mae'r Cylch yn un cyfrwng Cymraeg, er bod siaradwyr di-Gymraeg yn cael eu croesawu. Ar hyn o bryd mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dod o deuluoedd sy'n siarad Cymraeg. Mae pob plentyn sy'n mynychu ar hyn o bryd yn dod o'r pentref neu o'r gymuned wledig gyfagos. Does neb yn dod o gymuned ethnig gwahanol. Mae'r Cylch yn disgrifio'r ardal fel un nad yw'n freintiedig nac o dan anfantais gymdeithasol-economaidd. Mae ychydig o blant a nodwyd fel rhai sydd, neu sydd o bosibl ag anghenion addysgol ychwanegol ac maent yn cael sylw agos. Mewn achosion o'r fath mae cymorth arbenigol lleol ar gael. Mae un plentyn a gydnabyddir ar hyn o bryd fel un sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) oherwydd problem clywed yn cael cymorth 1:1 yn y ddwy sesiwn mae hi'n dod i'r Cylch.

Mae gan y Cylch ddefnydd o gyfleusterau y tu allan, gan gynnwys ardal fach o darmac ac ardal o laswellt gyfagos sydd â mynediad uniongyrchol o'r ystafell ddysgu. Mae'r Cylch hefyd yn defnyddio cyfleusterau eraill yr ysgol gan gynnwys y ffreutur i ginio a'r cyfleusterau chwarae tu allan. Mae'r Cylch hefyd yn defnyddio toiledau a chyfleusterau golchi dwylo'r Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn darparu ardal ddiogel i'r Cylch o fewn cyfleusterau'r ysgol sydd o dan glo.

Mae'r Cylch ar agor rhwng 11 y.b. a 1.30 y.p. ar bum niwrnod yn yr wythnos yn ystod y tymor. Gall plant ddechrau yn y Cylch o 2 ½ oed a symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg yn y mis Medi sy'n dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed.

Mae'r Cylch wedi ei gofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i ddarparu ar gyfer uchafswm o 12 o blant. Ar hyn o bryd mae 12 o blant ar y gofrestr, er nad yw pob plentyn yn mynychu bob dydd. Mae tri o'r plant presennol yn 3 oed ac yn derbyn cyllid gan Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

Cymerodd yr arweinydd presennol drosodd yn Ebrill 2013 gyda chymorth aelod o staff a gyflogir gan gylch chwarae "Cam gyda Gam" ac ar ddau fore'r wythnos mae cymorth ychwanegol ar gyfer plentyn sydd ag ADY.

Cafodd y Cylch ei arolygu ddiwethaf gan Estyn yn 2006 ac wedi symud i'r lleoliad presennol yn y cyfamser. Nid yw gwerthuso staff, a oedd yn un o'r argymhellion, wedi cael ei wneud ers i'r arweinydd newydd gymryd drosodd yn gynharach eleni.

Cafodd y Cylch ei arolygu gan AGGCC yn fwyaf diweddar ym mis Tachwedd 2007. Nid oedd unrhyw argymhellion.

Crynodeb

Perfformiad presennol y lleoliad	Da
Rhagolygon gwella'r lleoliad	Da

Perfformiad presennol

Prif arfarniad

Mae perfformiad presennol y Cylch yn dda oherwydd:

- yr ethos sy'n meithrin, cefnogi ac yn annog y plant i fod yn ddysgywr gweithredol;
- mae'r plant yn datblygu perthynas dda ac yn ddigon hyderus i weithio'n annibynnol;
- mae'r plant yn dysgu rhannu a chydweithio gyda'i gilydd;
- mae'r plant yn datblygu medrau iaith da;
- bod gan y staff fedrau cwestiynu da sy'n annog medrau meddwl y plant;
- y ddarpariaeth ar gyfer datblygu iechyd a lles y plant;
- mae'r lleoliad, gan gynnwys yr ardal y tu allan yn amglychedd diogel.

Rhagolygon gwella

Prif arfarniad

Mae'r rhagolygon gwella'n dda oherwydd:

- mae'r arweinydd sydd newydd ei hapwyntio wedi nodi meysydd i'w gwella yn y ddogfen hunanarfarnu ac wedi dechrau gwneud newidiadau;
- mae'r staff yn gweithio fel tîm ac yn canolbwyntio ar anghenion y plant;
- y berthynas waith agos gyda'r ysgol;
- mae'r Person Cofrestredig sy'n athrawes yn y Cyfnod Sylfaen yn medru rhoi cyngor a chefnogaeth dda;
- mae'r Cylch hefyd yn elwa o'r gefnogaeth a ddarperir gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a chefnogaeth Mudiad Meithrin.

Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r Cylch:

- A1 arfarnu'r ddarpariaeth bresennol gyda'r nôd o ddarparu mwy o amrywiaeth o brofiadau dysgu ar gyfer y plant;
- A2 datblygu gweithdrefnau asesu sydd yn galluogi bod y camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant yn medru cael eu nodi;
- A3 llunio cynllun datblygu sy'n nodi targedau ar gyfer gwelliant;
- A4 ymweld â lleoliadau eraill sy'n dangos arfer da a pharhau â datblygiad proffesiynol y staff

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Da

Profiadau dysgu: Da

Mae'r cynllunio yn llwyddo i ennyn diddordeb pob plentyn ac yn cynnwys gweithgareddau sy'n dal dychymyg y plant. Mae'r cynllunio yn cynnwys cyfeiriad at y chwe maes dysgu ac yn annog plant i wneud cynnydd tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau presennol y plant.

Mae'r gweithgareddau dysgu yn annog plant i ffurfio perthynas ac mae gan nifer lefel uchel o hunan-hyder. Mae'r profiadau dysgu yn eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau corfforol a chreadigol ac i ddysgu am y byd o'u cwmpas.

Mae pob plentyn yn dechrau caffael medrau allweddol ac mae'r cynllunio yn sicrhau bod y sgiliau'n gydlynol ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae'r medrau yn yr iaith Gymraeg yn datblygu'n dda ac mae'r rhan fwyaf o blant yn meddu ar eirfa dda a chynyddol. Yr iaith Gymraeg yw'r cyfrwng cyfathrebu a chaiff gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o draddodiadau a dathliadau o ddiwylliannau Cymru eu gwella trwy ddathlu gwyliau fel Dydd Gŵyl Dewi.

Mae gan blant gyfleoedd i dyfu hadau, i ymweld â ffermydd ac i weld sut mae anifeiliaid ifanc yn derbyn gofal. Maen nhw'n dechrau cael dealltwriaeth o ailgylchu, fel casglu cartonau papur a llaeth ar gyfer ailgylchu.

Addysgu: Da

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda a diweddar o ddatblygiad plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bob plentyn ac mae'r cynllunio yn cynnwys cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plentyn a'u cyfeirio gan oedolion. Mae mynediad hawdd i'r tu allan yn galluogi'r plant i ddewis eu gweithgareddau, i weithio'n annibynnol neu mewn grwpiau bach. Mae'r staff yn fodol i iaith da ac yn sgwrsio gyda'r plant pa beth bynnag yw gweithgareddau'r plant. Caiff cwestiynu ei ddefnyddio yn effeithiol i hybu iaith a medrau meddwl y plant. Mae'r staff yn ymyrryd yn briodol ac mae ymddygiad yn dda. Caiff ymarferwyr ychwanegol eu defnyddio'n effeithiol.

Asesir plant yn rheolaidd ac yn gynhwysfawr ac mae'r canlyniadau yn cael eu cofnodi. Mae hyn yn rhoi darlun da o gynnydd plant ac yn arwydd o'r hyn mae'r plant wedi ei fwynhau. Fodd bynnag, ni roddir digon o sylw i adnabod y camau nesaf yn nysgu'r plant fel eu bod yn cael eu herio'n briodol a lle mae anghenion a buddiannau plant yn cael eu diwallu. Mae rhieni yn derbyn adroddiadau anffurfiol rheolaidd ar gynnydd eu plant.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae darpariaeth y Cylch ar gyfer datblygu iechyd a lles plant, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda.

Mae'r ystod dda o gyfleoedd dysgu a gynlluniwyd ar gyfer y plant yn llwyddo i ddatblygu eu synnwyr o chwilfrydedd am y byd maent yn byw ynddo. Maent yn dysgu yr angen i ofalu am anifeiliaid bach drwy ymweld â ffermydd a gwyddant fod angen dŵr a heulwen i dyfu eginblanhigion.

Mae'r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn helpu meithrin gwerthoedd y plant, fel gonestrwydd, tegwch ac i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gywir ac anghywir. Maent yn deall yr angen i rannu ac maent yn dechrau deall rheolau ymddygiad.

Mae'r Cylch yn sensitif i anghenion plant unigol ac mae'r staff yn wiliadwrus o ran rhoi cymorth i'r plant hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol posibl (ADY). Mae rhieni yn cael eu cynnwys bob amser gan gysylltu â gwasanaethau cymorth proffesiynol yn ôl yr angen.

Mae polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i gefnogi trefniadau diogelu. Mae uwch-aelod o staff yn gyfrifol am ddelio ag amddiffyn plant yn yr ysgol ac mae cyswllt agos â staff eraill. Mae'r staff wedi mynychu cyrsiau hyfforddiant diweddar a pherthnasol ac mae'r gweithdrefnau yn adlewyrchu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.

Mae trefniant y Cylch ar gyfer diogelu plant yn cwrdd â gofynion ac nid yw'n rhoi unrhyw achos o bryder.

Mae gan y plant ag ADY fynediad llawn i bob maes dysgu. Mae ymgynghori rheolaidd gyda rhieni a chaiff cefnogaeth ychwanegol ei defnyddio'n dda. Mae'r staff arbenigol allanol yn cefnogi'r ddarpariaeth ac mae'r plant yma yn cael amserlen arbennig fel rhan o'u Cynlluniau Addysgol Unigol. Mae cynlluniau o'r fath yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn nodi cynnydd y plant.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae gan y Cylch ethos tawel a chefnogol sy'n gwbl gynhwysol, gan annog pob plentyn i gymryd rhan. Mae'r staff yn gwerthfawrogi a pharchu'r plant ac mae'r plant yn dangos lefel dda o hunan-hyder. Mae agwedd oddefgar yn treiddio drwy'r Cylch ac mae pob plentyn a staff yn rhydd oddi wrth aflonyddwch neu unrhyw ffurf o ymddygiad gormesol. Mae polisïau a gweithdrefnau yn eu lle i ddileu pob math o ymddygiad gwrthgymdeithasol, er mwyn sicrhau cydraddoldeb a diogelu plant. Nid yw plant sydd ag anabledau neu anghenion dysgu ychwanegol yn dioddef unrhyw driniaeth anffafriol ac mae pob plentyn yn chwarae rhan lawn, addysgiadol ym mywyd y Cylch.

Mae'r Cylch wedi ei staffio'n hael gydag ymarferwyr sydd â chymwysterau a phrofiad perthnasol a phriodol. Mae'r adnoddau yn addas ac yn ddigonol i ddiwallu anghenion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac i fynd i'r afael ag anghenion y plant.

Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd yn addas iawn i gwrdd ag anghenion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ystafell ddysgu wedi ei dodrefnu yn dda ac wedi'i rhannu i ardaloedd priodol. Mae'r tu allan yn hygyrch i'r plant yn uniongyrchol ac mae'n cynnwys meysydd o waith i wella datblygiad plant. Mae'n cael ei ddefnyddio yn effeithiol. Mae'r plant yn cael defnyddio maes yr ysgol, ac mae ymweliadau yn cyfoethogi eu dysgu.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?
--

Da

Arweinyddiaeth: Da

Mae'r staff yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae ymdeimlad o bwrpas yn amlwg yn y Cylch sy'n hyrwyddo safonau da. Mae'r staff yn rhannu gwerthoedd tebyg yn seiliedig ar gynnig y ddarpariaeth orau ar gyfer y plant. Mae'r ethos cadarnhaol sy'n amlwg yn y Cylch yn darparu amgylchedd dysgu da i'r plant. Mae'r plant yn mwynhau eu hunain ac yn barod i gymryd rhan; maent yn cael eu

rheoli'n dda ac yn cymryd rhan weithredol. Mae'r arweinydd presennol newydd ei sefydlu ac nid yw'r gweithdrefnau gwerthuso wedi'u datblygu'n llawn eto. Mae'r rhieni yn cefnogi addysg eu plant yn llawn.

Mae'r Cylch yn gweithio ar y cyd â'r ysgol, a'r dirprwy bennaeth yw'r Person Cyfrifol. Mae'r athrawes hon yn gyfrifol am blant y Cyfnod Sylfaen, ac mae'n ymwybodol iawn o berfformiad y Cylch ac mewn sefyllfa ddelfrydol i gynnig cyngor ac awgrymiadau i arweinydd y Cylch.

Rhoddir ystyriaeth dda o'r holl ddeddfwriaeth ac arweiniad perthnasol. Mae'r Cylch wedi cymryd ystyriaeth dda o flaenoriaethau cenedlaethol drwy fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen a blaenoriaethau lleol, gan gynnwys bwyta'n iach.

Gwella ansawdd: Da

Mae hunanarfarnu'r Cylch yn ddogfen waith dda a chryno. Mae'n realistig ac yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae'r targedau yn canolbwyntio ar enillion cadarnhaol ar gyfer y plant a'r mae'r hyn sydd wedi cael ei rhoi ar waith yn fuddiol. Hyd yn hyn, nid oes digon o sylw wedi'i roi i farn y plant a'r rhieni.

Mae gwybodaeth yr hunanarfarnu wedi ei gynllunio'n dda i sicrhau gwelliannau pellach, ond nid yw'r agweddau hyn yn cael eu blaenoriaethu, ac nid oes digon o fanylion ynghylch sut y byddant yn cael eu cyflawni. At ei gilydd, nid yw'r Cylch wedi llunio cynllun datblygu realistig.

Mae'r staff wedi bod yn ymwneud â datblygiad proffesiynol ac mae hyn wedi cael effaith dda ar y ddarpariaeth addysgol, fel y trefniadau diogelu. Mae angen rhoi cyfleoedd pellach i'r staff ymweld â chymunedau dysgu eraill, fod yn rhan o hyfforddiant proffesiynol a gweithio'n agos gyda'r ysgol i ddyfeisio cwricwlwm datblygol.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae perthynas ragorol gyda'r ysgol trosglwyddo ac athrawes y Cyfnod Sylfaen a hi hefyd yw'r Person Cyfrifol. Mae hyn yn argoeli'n dda ar gyfer dyfodol y Cylch ac yn ffactor pwysig yn ei ddatblygiad. Mae'r plant yn elwa o agosrwydd yr ysgol ac o adnabod y plant hyn a bod yn gyfarwydd â'u hathrawes nesaf. Mae hwn yn drefniant da iawn sy'n hwyluso eu trosglwyddiad i'r cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r rhieni yn gefnogol iawn o'r Cylch ac yn elwa o'r teimlad o ymddiriedaeth a dealltwriaeth sy'n bodoli. Mae swyddog cefnogi'r Awdurdod Lleol yn darparu cyngor gwerthfawr sydd wedi bod yn ddylanwadol o ran gwella profiadau dysgu'r plant.

Mae'r plant 3 oed wedi elwa o'r gefnogaeth ariannol a gynigir gan Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant a chefnogaeth Mudiad Meithrin. Mae'r rhain yn bartneriaethau effeithiol.

Rheoli adnoddau: Da

Mae'r staff yn cael eu defnyddio'n dda; mae pob un yn gwybod ac yn derbyn eu rolau. Mae'r adnoddau'n cael eu defnyddio i ysgogi plant i ddysgu a thrwyddi draw,

Adroddiad ar Cylch Meithrin Gellilydan
Mehfin 2013

mae'r adnoddau wedi cael effaith sylweddol ar ddysgu'r plant. Defnyddir yr ardal tu allan yn dda i ddatblygu sgiliau plant ar draws pob maes dysgu.

Mae'r Cylch yn defnyddio ei adnoddau ei hun yn effeithiol ac yn darparu gwerth da am arian.

Atodiad 1

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Nid oes unrhyw sylwebaeth ar yr holiaduron rhieni oherwydd y nifer fach o ymatebion a dderbyniwyd (llai na 10).

Ymateb i drafodaethau gyda phlant

Mae'r plant, yn ôl eu hagweddau, yn dangos eu bod yn mwynhau eu hamser yn y Cylch. Maent yn barod i gymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn arbennig o frwdfrydig mewn gweithgareddau symud i gerddoriaeth. Maent yn dangos graddfa glodwiw o hunan-hyder a roedd nifer wedi siarad ag ymwelydd.

Atodiad 2

Yr arolygydd cofnodol

Mr Eifion R Morgan	Arolygydd Cofnodol
--------------------	--------------------

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Rhestr termau

AGGCC	Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
Athro ymgynghorol awdurdod lleol	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
Y Cyfnod Sylfaen	Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed
Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned.
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau.
Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
Meysydd Dysgu	<p>Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol • medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu • datblygiad mathemategol • datblygu'r Gymraeg • gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd • datblygiad corfforol • datblygiad creadigol
Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.

Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012.
Mudiad Meithrin	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.